ATODIAD 4

# Sesiwn a gynhaliwyd yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri gyda Chynrychiolwyr y Senedd Disgyblion

## Dydd Mawrth 17 Mawrth 2026 am 10am – 11am

17 o ddisgyblion a 4 aelod o staff cymorth yr ysgol yn bresennol

| **Cwestiynau a ofynnwyd gan ddisgyblion oedran Cynradd** | **Sylwadau'r Cyngor** |
|---|---|
| Pam fod y newidiadau'n cael eu gwneud? | Mae gormod o leoedd cynradd sydd ddim yn cael eu defnyddio ar draws Cymuned Ddysgu Abertyleri (cyfnod cynradd), sy'n effeithio ar gyllideb y Gymuned Ddysgu ar y cyfan. |
| Pam fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gau safle Heol Roseheyworth yn benodol? | Y campws yma sydd â'r nifer isaf o ddisgyblion ar hyn o bryd a gellir gwneud lle i'r disgyblion hynny yn y ddau gampws cynradd arall. Hwn hefyd yw'r hynaf o'r safleoedd cynradd. |
| A fydd hyn yn effeithio ar ddisgyblion Blwyddyn 6? | Na fydd. Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn trosglwyddo i Gampws Uwchradd Stryd Alma ym mis Medi 2026 fel a fwriadwyd. |
| Sut fydd cludiant yn cael ei reoli ac a yw'n ddiogel? | Bydd disgyblion sy'n byw fwy nag 1.5 milltir o'r campws y maent yn ei fynychu'n gymwys ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt hefyd ynglŷn â threfniadau cludiant yn ôl disgresiwn. |
| Os bydd Heol Roseheyworth yn cau, beth fydd yn digwydd i'r safle? | Os bydd y campws yn cau fel rhan o'r cynnig hwn, bydd y safle'n aros ym mhortffolio Addysg y Cyngor. Byddai ymarfer opsiynau'n cael ei gynnal i asesu ble allai fod yr angen mwyaf am yr adeilad yn y ddarpariaeth addysg. |
| Pam gwario arian ar Heol Roseheyworth yn awr os gallai gau? | Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gynnal a chadw adeiladau ysgolion. Ni fydd unrhyw waith gofynnol yn cael ei gyllido o gyllideb Cymuned Ddysgu Abertyleri. |
| A allai disgyblion o ysgolion eraill gael eu symud i safle Heol Roseheyworth i'w achub? | Na allent, gan mai un ysgol a chanddi un gyllideb yw Cymuned Ddysgu Abertyleri (CDdA), sy'n golygu nad yw symud disgyblion rhwng campysau'n arbed arian, gan ei fod yn costio'r un faint i redeg yr adeiladau. Nid yw'n bosibl symud plant o ysgolion eraill ychwaith gan bod ar yr ysgolion hynny angen eu disgyblion eu hunain a bod teuluoedd fel arfer yn mynd i ysgolion cyfagos oherwydd dewis rhieni. Os nad oes digon o blant, mae cadw adeiladau ychwanegol ar agor yn defnyddio arian y byddai'n well ei wario ar ddysgu. |
| Sut fyddwch chi'n sicrhau bod y niferoedd mewn dosbarthiadau ddim yn mynd yn rhy fawr? | Mae'r polisi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru'n nodi na ddylai nifer y disgyblion mewn dosbarth fod yn fwy na 30. |
| Sut fydd plant sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â newid yn cael eu cefnogi? | Cwestiwn da. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd Cymuned Ddysgu Abertyleri'n rhoi trefniadau pontio eglur yn eu lle ar gyfer mis Medi 2027 a bydd yn cydweithio'n agos, lle bynnag y bo'n bosibl, gyda rhieni a phlant i gefnogi symudiad llyfn rhwng |

| | |
|---|---|
| | campysau a sicrhau bod y newid yn tarfu gyn lleied â phosibl. |
| Sut ydych chi'n bwriadu ymdrin â phroblemau rheoli'r maes parcio a thraffig? | Os bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen, bydd yr ysgol a'r Cyngor yn bwrw golwg ar barcio a thraffig cyn mis Medi 2027. Y nod yw gwneud yn siŵr bod disgyblion a theuluoedd yn gallu mynd i mewn ac allan yn ddiogel a heb gynnwrf, gan ymdrin â phryderon posibl a allai godi. |
| A fydd athrawon ac adnoddau'n symud i gampysau Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch? | Lle y bo'n bosibl felly y bydd hi, nid oes unrhyw beth wedi cael ei adolygu eto gan nad yw'r penderfyniad yn un terfynol. Bydd adran Datblygu Sefydliadol y Cyngor yn cefnogi staff a'r ysgol trwy'r broses. Fodd bynnag, gallwn fod yn siŵr y bydd unrhyw adnoddau'n symud o fewn campysau Cymuned Ddysgu Abertyleri. |
| A fydd disgyblion yn cael eu symud yn awtomatig ynteu'n cael dewis? | Byddai hyn yn cael ei reoli gan Gymuned Ddysgu Abertyleri. Fel gyda phontio i'r campws uwchradd, byddai'r ysgol yn gweithio gyda rhieni a disgyblion i gefnogi trefniadau ac ymdrin â phryderon. |
| A fydd angen gwneud gwaith adeiladu i gampysau'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri fel bod lle i ragor o ddisgyblion? | Mae niferoedd y disgyblion yn y ddau gampws yn llai na'u capasiti ar hyn o bryd ac mae ganddynt ddigon o le ar gyfer disgyblion o Heol Roseheyworth. Efallai y bydd angen rhai mân addasiadau i fannau mewnol, ond nid oes angen estyniadau mawr i unrhyw adeiladau. |
| Beth fydd yn digwydd i'r adnoddau a'r arian a arbedir yn Heol Roseheyworth? | Bydd adnoddau'n aros yng nghampysau Cymuned Ddysgu Abertyleri, gydag eitemau dros ben yn cael eu cynnig i ysgolion lleol eraill lle y bo'n briodol. Byddai unrhyw arbedion ariannol yn aros yng nghyllideb CDdA ac yn cael eu hailfuddsoddi er budd disgyblion. Mae cyllid yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion ac nid yw'n cael ei ddychwelyd i'r Cyngor. |
| Beth yw'r cynlluniau i gefnogi'r gymuned leol? | Bydd adeilad yr ysgol yn aros yn y portffolio Addysg, i gael ei ddefnyddio yn y dyfodol. Nid oes cynlluniau i'w werthu ar gyfer datblygiadau tai. Mae cysylltiadau cymunedol yn bwysig, byddai angen cynnal ymchwiliadau pellach pe bai'r Campws yn cau. |
| Beth sy'n digwydd i ddysgwyr iau (O dan 5) lle mae cludiant yn y cwestiwn? | Cwestiwn da. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel mater o flaenoriaeth os cymeradwyir y cynnig. Bydd trefniadau a thrafodaethau pellach rhwng yr ysgol a'r Cyngor yn digwydd i gefnogi cludiant ar gyfer teuluoedd a phlant. |
| Yn economaidd mae hyn yn gwneud synnwyr, ond beth am Lesiant ac ADY? | Bydd Anghenion Llesiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer unrhyw ddisgybl yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri yn dal i gael eu diwallu, lle bynnag y bo'r disgyblion yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri. |
| A allai dalgylchoedd gael eu haddasu i ddod â rhagor o deuluoedd i mewn? | Cwestiwn da. Mae Heol Roseheyworth yn rhan o Gymuned Ddysgu Abertyleri felly gan yr ysgol y caiff y dalgylch mewnol ei bennu. |
| Sut fydd staff sy'n wynebu colli swyddi'n cael eu cefnogi? | Fel a grybwyllwyd uchod bydd adran Datblygu Sefydliadol y Cyngor yn cefnogi'r ysgol a staff sy'n wynebu'r posibilrwydd o golli swyddi, pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno. Bydd hyn yn digwydd yn y cyfnod |

| | |
|---|---|
| | pontio rhwng mis Medi 2026 a mis Medi 2027 pan fyddai'r cynnig yn cael ei roi ar waith. |

| **Cwestiynau Campws Stryd Alma Blwyddyn 7 + Blwyddyn 8** | **Ymatebion y Cyngor:** |
|---|---|
| A ydynt yn mynd i estyn campysau'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri i wneud lle i'r niferoedd ychwanegol? A oes unrhyw gynlluniau eraill i ddatblygu'r safleoedd hyn yn y dyfodol? | Mae niferoedd y disgyblion yn y ddau gampws yn llai na'u capasiti ar hyn o bryd ac mae ganddynt le ar gyfer disgyblion ychwanegol heb yr angen am estyniadau. Efallai y bydd angen rhai mân addasiadau. |
| A fydd ysgol arall yn cael ei hadeiladu ar y safle hwn fel a ddigwyddodd gyda Stryd y Frenhines a Bryngwyn? | Cafodd y safleoedd hynny eu trosglwyddo allan o'r portffolio Addysg a'u gwerthu yn 2019 a 2022. Byddai Heol Roseheyworth yn aros yn y portffolio Addysg ac nid oes cynlluniau i adeiladu ysgol arall yno. |
| A fyddai cymorth o ran cludiant ac i'r rhai sy'n byw yn 'y rhodfeydd' i gyfyngu ar nifer y disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol. | Byddai'r Cyngor yn ystyried cymorth ychwanegol gyda chludiant i deuluoedd sy'n byw fwy nag 1.5 milltir o'r campws a ddyrannwyd iddynt. Mae'r cynnig ar y cam ymgynghori ar hyn o bryd ac mae cludiant yn cael ei bwyso a'i fesur ar sail cyfeiriadau yn hytrach na disgyblion unigol. |
| Beth yw'r cynlluniau i gefnogi'r gymuned leol a'r ardal leol os yw campws Heol Roseheyworth yn cael ei gau? | Bydd yr adeilad yn aros yn y portffolio Addysg, i gael ei ddefnyddio yn y dyfodol. Nid oes cynlluniau i'w werthu ar gyfer datblygiadau tai. Mae cysylltiadau cymunedol yn bwysig, byddai angen cynnal ymchwiliadau pellach i weld pa anghenion fyddai heblaw am ddarpariaeth addysg. |
| Staffio? A ydynt yn mynd i roi swydd iddynt yn un o'r campysau eraill? | Pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno, byddai adran Datblygu Sefydliadol y Cyngor yn cefnogi'r ysgol ac unrhyw staff yr effeithir arnynt yn ystod y cyfnod pontio rhwng mis Medi 2026 a mis Medi 2027. |
| A oes cynllun rheoli traffig? | Mae gan bob ysgol gynllun rheoli traffig; ceir ymrwymiad gan y Cyngor i adolygu ei lwybrau diogel i ysgolion a thraffig o gwmpas y campysau. |

| **Cwestiynau Campws Stryd Alma Blwyddyn 9** | **Ymatebion y Cyngor:** |
|---|---|
| Beth yw'r cynlluniau i gefnogi'r gymuned leol a'r ardal leol os caiff campws Heol Roseheyworth ei gau? | Bydd y safle'n aros yn y portffolio Addysg ac nid oes cynlluniau i'w werthu ar gyfer tai. Mae cysylltiadau cymunedol yn bwysig a byddai anghenion yn y dyfodol y tu hwnt i addysg yn cael eu harchwilio. |
| Os oes rhagor o blant yn mynychu'r ysgolion hyn beth fyddant yn ei wneud i leihau tagfeydd traffig? | Byddai trefniadau traffig yn cael eu hadolygu. Er bod y ddau gampws yn brysur yn barod, mae ganddynt y capasiti i ymdopi â disgyblion ac anghenion teithio ychwanegol. |

| | |
|---|---|
| Staffio? A ydynt yn mynd i roi swydd iddynt yn un o'r campysau eraill? | Pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno, byddai adran Datblygu Sefydliadol y Cyngor yn cefnogi'r ysgol ac unrhyw staff yr effeithir arnynt yn ystod y cyfnod pontio rhwng mis Medi 2026 a mis Medi 2027. |

| **Cwestiynau Campws Stryd Alma Blwyddyn 10** | **Ymatebion y Cyngor:** |
|---|---|
| Yn economaidd gallwn ddeall bod cau campws Heol Roseheyworth yn gwneud synnwyr. | Mae hyn yn adlewyrchu'r cyd-destun ariannol a amlinellwyd gan y Cyngor. |
| Pryderon ynghylch grwpiau cyfeillgarwch a'r gwahaniaeth mewn gallu. | Mae'r ysgol yn deall pryderon ynghylch cyfeillgarwch a gwahanol alluoedd. Bydd staff yn helpu disgyblion i gynnal cyfeillgarwch lle y bo'n bosibl ac yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt, fel bod disgyblion yn gallu dysgu a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys. |
| Os oedd pryder ynghylch meintiau dosbarthiadau yng nghampws Heol Roseheyworth pam na wnaethant ddechrau ceisio cynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r campws hwn. | Mae niferoedd y disgyblion wedi bod yn cael eu monitro am nifer o flynyddoedd a rhagwelir y byddant yn parhau i ostwng oherwydd cyfraddau genedigaethau is, o oddeutu 725 o ddisgyblion yn 2026/27 i  620 erbyn 2031/32. |
| Beth fydd yn digwydd i'r staff yng nghampws Heol Roseheyworth? | Byddai adran Datblygu Sefydliadol y Cyngor yn cefnogi unrhyw staff yr effeithir arnynt yn ystod y cyfnod pontio pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. |
| A yw hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yng nghampws Heol Roseheyworth? | Byddai'r darparwr gofal plant preifat Mini-Me, sydd wedi'i leoli yng Nghampws Heol Roseheyworth, yn cael ei gefnogi gan staff addysg a'r tîm gofal plant Dechrau'n Deg pe bai'r cynnig yn symud yn ei flaen. |
| A fydd swyddi'r cynorthwywyr addysgu'n ddiogel? | Efallai y bydd rhai cynorthwywyr addysgu'n symud gyda disgyblion i gampysau eraill. Byddai'r adran Datblygu Sefydliadol yn cefnogi unrhyw staff yr effeithir arnynt pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno. |

| **Cwestiynau Campws Stryd Alma Blwyddyn 11** | **Ymatebion y Cyngor:** |
|---|---|
| Faint o blant sy'n mynd i gampysau Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch fesul grŵp blwyddyn? Sut y maen nhw'n mynd i gael eu huno â rhai grwpiau blwyddyn sydd â mwy na'i gilydd ynddynt? | Byddai ymarfer manwl yn cael ei gynnal gan Gymuned Ddysgu Abertyleri pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Ni fydd meintiau dosbarthiadau'n fwy na 30 o ddisgyblion yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. |
| Pam oedd cyn lleied o ddisgyblion yng nghampws Heol Roseheyworth i ddechrau? | Mae derbyniadau'n cael eu rheoli'n fewnol gan Gymuned Ddysgu Abertyleri, ac mae'r niferoedd gostyngol yn gysylltiedig â chyfraddau genedigaethau gostyngol ledled Blaenau Gwent yn ogystal â thueddiadau lleol. |
| Mae Bl11 yn teimlo bod anfantais i'r naill benderfyniad neu'r llall. Mae'r niferoedd yn isel yn Heol Roseheyworth; fodd bynnag, a all y campysau eraill ymdrin â'r cynnydd mewn dosbarthiadau? | Mae niferoedd y disgyblion yng nghampysau'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri yn llai na'u capasiti ac mae ganddynt ddigon o le i ddisgyblion ychwanegol. Ceir lleoedd gwag ar draws yr holl safleoedd cynradd, nid dim ond Heol Roseheyworth. |

| | |
|---|---|
| Fe ddwedodd Bl11 fod angen pontio gwell i helpu'r rheiny i ymgartrefu o safbwynt Dysgu ac Addysgu. | Byddai'r Gymuned Ddysgu'n cymhwyso'r un egwyddorion ag a ddefnyddir ar gyfer pontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Byddai trefniadau eglur yn eu lle, gyda chydweithio agos rhwng athrawon, rhieni a disgyblion i sicrhau parhad ac ansawdd y dysgu ac addysgu. |
| A yw'r cynnig wedi'i fwriadu'n bennaf i arbed costau o ganlyniad i gau Campws Heol Roseheyworth? Os gwneir arbedion, sut fyddai unrhyw effeithlonrwydd ariannol a gyflawnir o ganlyniad i hynny'n cael ei ddefnyddio, ac a fyddai'r arian yn cael ei ailfuddsoddi er budd Cymuned Ddysgu Abertyleri a'i champysau eraill? | Mae a wnelo'r cynnig â mwy nag arbed arian yn unig. Mae a wnelo â sicrhau bod disgyblion yn dysgu yn yr amgylchedd gorau a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Byddai unrhyw arbedion yn aros yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri ac yn cael eu hailfuddsoddi i gefnogi disgyblion, staff, yr addysgu ac adeiladau'r ysgol. Ni fyddai'r arian yn cael ei dynnu allan o'r ysgol. |